**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi Thrawsnewid a Cyngor y Dyfodol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 25 Medi 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P B Smith (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| T J Hennegan | E T Kirchner | M B Lewis |
| A H Stevens | L J Tyler-Lloyd | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Vicky Thomas | Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy |
| Jonathan Wills | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L S Gibbard

---

## 12 Datganiadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 13 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir.

## 14 Diffiniadau Contractau Gweithwyr AD.

Darparwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol a oedd yn cynnwys Cofnodion 14, 15 a 16.

Darparodd y cyflwyniad ddiffiniadau ar gyfer contractau gweithwyr AD, a oedd yn cynnwys y canlynol: -

- Parhaol
- Dros dro
- Cyflenwi/Achlysurol

Amlygwyd Polisi Cyflogaeth Cyflenwi Dros Dro'r cyngor.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y Strategaeth a'r Cynllun Datblygu Sefydliadol, a oedd yn cynnwys: -

- Ymagwedd Strategol a Gweithredu Datblygu Sefydliadol
- Cynllun Datblygu Sefydliadol: Blaenoriaethau 1af
- Cynllun Datblygu Sefydliadol: Blaenoriaethau Eilaidd
- Cynllun Datblygu Sefydliadol: Blaenoriaethau Trydyddol

Roedd y cyflwyniad hefyd yn ymdrin ag oriau gweithio hyblyg/ffyrdd newydd o weithio. Roedd hyn yn cynnwys y tri maes peilot a nodwyd ynghyd â'r sesiwn cynnwys gweithdai.

Cwestiynau a thrafodaethau dan sylw: -

- Contractwyr yn defnyddio contractau dim oriau
- Ystyr bod yn sefydliad ystwyth
- Effaith gweithio ystwyth ar absenoldeb
- Ystyr cynnwys yn y cyngor a'r tu allan iddo
- Cydnabyddiaeth ar gyfer staff a phosibilrwydd cynlluniau gwobrwyo
- Datblygu Rhaglen Cynghorwyr y Dyfodol
- Cwmpas cynnwys ynghylch oriau gweithio hyblyg
- Ffyrdd o fesur llwyddiant cynlluniau peilot oriau gweithio hyblyg

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad; a
2) dylai'r Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol ddarparu gwybodaeth bellach mewn perthynas â chontractau dim oriau sy'n cael eu defnyddio gan gontractwyr.

## 15 Strategaeth a Chynllun Datblygu Sefydliadol.

Darparwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol a oedd yn cynnwys Cofnodion 14, 15 a 16. Darperir manylion llawn yng Nghofnod 14.

## 16 Cynllun a Chwmpas Oriau Gweithio Hyblyg.

The Strategic Human Resources and Organisational Development Manager provided a presentation which covered Minutes 14, 15 & 16. Full details are provided in Minute 14.

## 17 Cynllun Gwaith 2018/2019.

Darparodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer 2018/19 a nododd y byddai'r Is-gadeirydd yn cadeirio cyfarfod nesaf Pwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhelir ar 23 Hydref 2018.

Byddai Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy yn trefnu gweithdy ynghylch cyfathrebu'r cyngor/digideiddio llythyrau. Trafodwyd dyddiau posib ar gyfer y gweithdy gan y pwyllgor a nodwyd bod dydd Llun neu ddydd Iau a phrynhawniau'n fwy dymunol.

Nododd hefyd y byddai oriau gweithio hyblyg yn cael eu symud o fis Tachwedd oherwydd y darparwyd diweddariad heddiw.

Trafododd y pwyllgor apiau, megis ap Cyngor Caerdydd ac ap Llyfrgell Abertawe, y gellid eu defnyddio i ddod o hyd i syniadau ynghylch cynnwys/defnydd.

**Penderfynwyd** nodi'r cynllun gwaith a'r diweddariadau.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.55 pm

**Cadeirydd**